



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gweddillion Meddyginiaethau Milfeddygol

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am
Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr 2019
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 26 Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Mae meddyginiaethau milfeddygol, er yn hollbwysig ar gyfer trin anifeiliaid a sicrhau lles anifeiliaid, hefyd yn cyflwyno risgiau posibl amrywiol i iechyd pobl a'r amgylchedd. Os ydynt yn cael eu camddefnyddio, gallant effeithio ar iechyd dynol yn uniongyrchol neu gael eu gollwng i'r amgylchedd o ganlyniad i'w cynhyrchu, eu defnyddio neu eu gwaredu gyda chanlyniadau anhysbys.

Mae'r Rheoliadau drafft yn ddiweddariad pwysig, ond technegol, i alluogi i'r fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE. Nid yw'n newid ein polisi ar weddillion meddyginiaethau milfeddygol.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon, drwy gwblhau holiadur ar-lein, neu ysgrifennu at y tîm yn defnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

I gyrchu'r ymgynghoriad ar-lein, gan gynnwys holiadur i gyflwyno'ch ymateb, ewch i <https://beta.llyw.cymru/ymgynghoriadau>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cyfeiriad:

Tîm Brexit
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: OCVOBrexit@llyw.cymru

ffôn: 03000 257961

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd
Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123
1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Ble rydym ni arni nawr?

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997 mewn grym yng Nghymru. Mae angen diweddarau'r rhain i fod yn gyson â Lloegr a'r Alban, lle mae'r Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Lloegr a'r Alban) 2015 mewn grym.

Beth fydd y ddeddfwriaeth ddrafft yn ei wneud?

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi darpariaethau i sicrhau bod cynnyrch anifeiliaid yn ddiogel i ddefnyddwyr rhag iddynt fod yn agored i weddillion o gyffuriau milfeddygol a all gael eu defnyddio wrth ffermio da byw yn gyfreithlon, a hefyd maent yn gwahardd defnyddio cyffuriau anghyfreithlon penodol. Maent hefyd yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn y dyfodol yn gywir ac yn dirymu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Bydd y ddeddfwriaeth ddrafft yn galluogi i'r fframwaith meddyginiaethau milfeddygol barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl gadael yr UE. Mae'r diweddariad yn bwysig, ond technegol, ac nid yw'n newid ein polisi ar weddillion meddyginiaethau milfeddygol.

Byddai'n sefyllfa annymunol iawn i Gymru fod â deddfwriaeth ar weddillion meddyginiaethau milfeddygol ar waith y gellid ei hystyried yn wannach na'r rhai sydd mewn grym yng ngweddill y DU ac yn yr UE.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn gymwys)

e-bost / rhif ffôn

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Hoffem gael gwybod eich barn ar y Rheoliadau drafft amgaeedig, yn enwedig ar unrhyw effeithiau, boed gadarnhaol neu negyddol, y gallent eu cael ar y fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yng Nghymru.

Cwestiwn 2: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 3: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid fformiwleiddio neu newid y Rheoliadau drafft er mwyn iddynt gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb gael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 4: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Nodwch yma:

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y fewnwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: